Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Caban Hirael

Safle Ysgol Hirael
Ffordd y Gogarth
Hirael
Bangor
LL57 1BA

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2026

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Caban Hirael

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Caban Hirael |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Tracey Jones |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Rebecca Stant |
| Nifer y lleoedd | 32 |
| Ystod oedran y plant | 2-4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 21 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 7 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun – Gwener, 8:30-15:00 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Dyma'r arolygiad cyntaf ers cofrestru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 22/01/2018 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 16/06/2026 |

# Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Datblygu cysondeb yn yr addysgu er mwyn sicrhau bod ymarferwyr yn herio a chefnogi disgyblion yn briodol i wneud cynnydd cadarn.

A2 Parhau i ddatblygu rôl strategol arweinwyr, gan gynnwys rôl y pwyllgor.

A3 Datblygu prosesau hunanwerthuso mwy cadarn sy’n defnyddio ystod eang o dystiolaeth a safbwyntiau i nodi blaenoriaethau strategol ar gyfer gwella.

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae gan blant lais cryf ac yn gwneud penderfyniadau annibynnol yn hyderus. Maent yn dewis sut i dreulio'u hamser yn bwrpasol ac yn ymgysylltu'n syth â'r ystod eang o brofiadau chwarae sydd ar gael wrth gyrraedd. Mae llawer o blant yn hyderus wrth ofyn am gymorth neu sylw gan ymarferwyr oherwydd eu bod yn gwybod y caiff eu dymuniadau eu hystyried a'u gwerthfawrogi.

Mae bron bob plentyn yn cyrraedd yn hapus ac yn barod i chwarae a dysgu. Maent yn gwahanu oddi wrth eu rhieni neu ofalwyr yn fodlon, gan fynd yn gyfforddus at ymarferwyr. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymgartrefu'n gyflym gan eu bod yn gyfarwydd â threfniadau dyddiol y lleoliad. Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn mwynhau'r ymdeimlad o gysur a chynhesrwydd o fod yng nghwmni eraill, megis eistedd ar lin ymarferwr yn ystod amser cylch neu wrth wrando ar straeon. Mae llawer o blant yn dechrau rheoli eu hemosiynau'n briodol, er enghraifft trwy ofyn am gefnogaeth, pan fo angen.

Mae mwyafrif y plant yn rhyngweithio mewn modd cadarnhaol ac yn datblygu medrau cymdeithasol pwysig yn dda wrth drafod beth i'w roi mewn cymysgedd yn y gegin fwd. Maent yn cyd-chwarae neu'n chwarae ochr yn ochr â'i gilydd yn hwylus. Mae llawer o blant yn dechrau rhannu adnoddau'n hapus ac yn dangos diddordeb yng ngwaith a llwyddiannau eu ffrindiau. Er enghraifft, maent yn frwdfrydig wrth rannu offer i ryddhau anifeiliaid o flociau iâ, ac yn dangos cyffro pan fyddant yn llwyddo. Mae llawer yn cydweithio'n effeithiol i gwblhau tasgau gan gyfathrebu'n dda wrth geisio adeiladu'r tŵr uchaf posibl.

Mae bron bob plentyn yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn canolbwyntio ac yn dyfalbarhau'n dda wrth ymgymryd â phrofiadau chwarae ac yn mwynhau arbrofi a darganfod gydag offer a deunyddiau amrywiol. Maent yn defnyddio'u dychymyg ac yn teimlo'n hyderus i symud adnoddau rhwng ardaloedd. Er enghraifft, maent yn casglu dŵr o'r twba, a blawd o weithgaredd gwneud marciau i wneud hylif hud yn y gegin fwd, gan fwynhau chwarae rôl pwrpasol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibynnol da yn eu gweithgareddau dyddiol. Maent yn cyflawni tasgau personol yn hyderus, megis cadw eu cotiau a'u bagiau wrth gyrraedd a defnyddio gefel i drosglwyddo ffrwythau i'w plât amser byrbryd, gan ymfalchïo yn eu llwyddiannau.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae llawer o blant yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn ac yn dangos diddordeb brwd yn eu dysgu. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i brofiadau ymarferol, gan ddangos chwilfrydedd naturiol wrth archwilio'r byd o'u cwmpas, er enghraifft wrth arsylwi ar symudiad buwch goch gota a'i thrin yn ofalus. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymateb yn briodol i drefniadau dyddiol, fel helpu i dacluso ar ddiwedd gweithgareddau. Mae bron bob plentyn yn archwilio'r amgylchedd dysgu yn hyderus ac yn ymgolli'n llwyr yn eu chwarae, gan ail-greu profiadau ystyrlon.

Mae medrau cyfathrebu llawer o blant yn datblygu'n briodol. Gyda chymorth, maent yn ailadrodd geiriau ac ymadroddion syml yn Gymraeg yn gynyddol hyderus, yn enwedig wrth ganu caneuon a rhigymau cyfarwydd. Mae llawer o blant yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau ysgrifennu cynnar ac yn dewis gwneud marciau mewn amryw gyd-destunau, gan ddangos rheolaeth gynyddol dros offer ysgrifennu. Mae ychydig o blant yn datblygu medrau darllen priodol. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i lyfrau rhyngweithiol, yn dangos diddordeb yn y lluniau ac yn dynwared cymeriadau i gefnogi eu dealltwriaeth.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau rhifedd a datrys problemau yn effeithiol drwy brofiadau ymarferol. Maent yn cyfrif i bump gyda chefnogaeth ac yn archwilio cysyniadau megis cynhwysedd drwy arllwys ac arbrofi gyda dŵr. Mae llawer o blant yn cymhwyso eu medrau'n bwrpasol wrth ddatrys problemau ymarferol, er enghraifft wrth wneud i'r ffynnon weithredu, gan ddangos dyfalbarhad a chydweithio i sicrhau canlyniad llwyddiannus. Mae medrau digidol y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n briodol, gyda llawer yn rheoli teganau trydanol yn hyderus gan ddechrau deall effaith gwasgu botymau ar symudiad.

Mae datblygiad corfforol y rhan fwyaf o blant yn gryf. Maent yn defnyddio medrau echddygol bras a manwl yn fedrus, gan reoli beiciau a sgwteri'n hyderus a defnyddio morthwylion ac offer gwaith coed yn llwyddiannus. Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau creadigol yn effeithiol gan ddefnyddio eu dychymyg i ddefnyddio deunyddiau o'u dewis i greu llosgfynydd.

Mae medrau personol, cymdeithasol ac emosiynol llawer o blant yn datblygu'n gadarn. Maent yn cyd-chwarae'n hapus, yn dechrau rhannu adnoddau, ac yn cydweithio'n garedig i gasglu ac arllwys dŵr yn y gegin fwd.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae ymarferwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant ac yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'u rolau a'u cyfrifoldebau wrth sicrhau bod plant yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn iach. Maent wedi cwblhau hyfforddiant diogelu plant priodol ac yn hyderus o ran y gweithdrefnau cywir i'w dilyn pe bai ganddynt unrhyw bryder am blentyn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae nifer priodol o ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig llawn, mae ymarferwyr yn cofnodi damweiniau'n fanwl ac yn sicrhau bod rhieni neu ofalwyr yn cael gwybod am ddigwyddiadau.

Mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau hylendid trylwyr, ac mae'r arferion hyn wedi'u hymgorffori'n bwrpasol yng ngweithgareddau'r plant. Er enghraifft, maent yn annog plant i olchi eu dwylo'n rheolaidd ac yn sicrhau bod arwynebau, megis byrddau, yn cael eu diheintio cyn ac ar ôl amser bwyd. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo bwyta'n iach a gweithgarwch corfforol yn effeithiol. Maent yn annog plant i fwyta ffrwythau ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddatblygu eu medrau corfforol a threulio amser yn yr awyr agored yn ddyddiol.

Mae ymarferwyr yn ffurfio perthnasoedd ystyrlon â'r plant. Maent yn siarad yn glir ac yn annwyl â'r plant, ac yn eu trin â gofal a pharch. Mae ymarferwyr yn defnyddio strategaethau cyson ac effeithiol i hybu ymddygiad cadarnhaol, yn unol â pholisi'r lleoliad. Er enghraifft, maent yn atgoffa'r plant yn dyner ac yn canmol ymddygiad disgwyliedig ac ymdrechion yn barhaus. Mae ymarferwyr yn annog plant i symud yn ofalus o amgylch yr amgylchedd ac yn cynnig cysur, pan fo angen, gan ymateb yn brydlon ac yn sensitif i'w hanghenion. Maent yn gweithredu fel modelau rôl cadarnhaol ac yn rhyngweithio â'r plant mewn modd cefnogol. Maent yn cefnogi plant i aros eu tro, er enghraifft wrth baratoi ar gyfer amser bwyta.

Mae ymarferwyr yn dilyn trefniadau pwrpasol i adnabod a chefnogi anghenion unigol plant, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn casglu gwybodaeth berthnasol am hoffterau, anghenion a chefndir pob plentyn cyn iddynt ddechrau yn y lleoliad. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn adnabod y plant yn dda ac yn deall eu hanghenion a'u dymuniadau'n glir. Mae gweithdrefnau effeithiol ar waith i gyfeirio plant yn amserol er mwyn cael cyngor a chymorth ychwanegol gan asiantaethau allanol. Mae ymarferwyr yn ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol, lle bo angen, i gryfhau eu gallu i gefnogi pob plentyn yn effeithiol.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae ymarferwyr yn dangos dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd chwarae yn natblygiad plant ac yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'u rôl fel oedolion sy'n galluogi. Maent yn defnyddio eu gwybodaeth yn effeithiol i gynllunio profiadau dysgu pwrpasol. Mae ymarferwyr yn cyd-chwarae'n sensitif ac yn ymateb yn briodol i ddiddordebau'r plant, gan ymestyn y dysgu'n effeithiol, ar adegau.

Mae ymarferwyr yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson, gan fodelu iaith yn fedrus ac ailadrodd ymadroddion cyfarwydd. Ar y cyfan, maent yn sgwrsio'n naturiol wrth chwarae, gan ddefnyddio sylwebaeth a chwestiynau sy'n cefnogi datblygiad iaith yn briodol. Maent yn canu rhigymau a chaneuon Cymraeg yn rheolaidd, sy'n cefnogi datblygiad geirfa a medrau gwrando plant yn llwyddiannus. Er hyn, nid yw sesiynau stori bob amser yn ennyn ymgysylltiad llawn y plant, sy'n cyfyngu ar eu cyfranogiad. Mae ymarferwyr yn darparu profiadau bwriadus i hybu cyfathrebu drwy ddefnyddio teclynnau megis teganau radio cyfathrebu ac arwyddo.

Mae'r lleoliad yn darparu amgylchedd trefnus sy'n galluogi dysgu annibynnol plant yn llwyddiannus, gyda ardaloedd wedi eu diffinio'n glir a'r adnoddau'n hygyrch i ddewis rhydd. Mae ymarferwyr yn darparu gweithgareddau bwriadus i ddatblygu medrau cynnar rhifedd a marcio yn effeithiol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau digidol yn gadarn. Mae'r defnydd o adnoddau fel y bwrdd golau, cloriannau a cheir trydanol yn meithrin chwilfrydedd ac yn galluogi plant i drin offer yn hyderus. Er hyn, nid yw ymarferwyr yn manteisio'n ddigon effeithiol ar ddiddordebau digymell y plant i ddatblygu eu dysgu ymhellach.

Mae ymarferwyr yn datblygu prosesau asesu ac arsylwi effeithiol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gynnydd plant. Maent yn defnyddio arsylwadau rheolaidd i adnabod anghenion ac i addasu'r ddarpariaeth ar y pryd. Mae cofnodion asesu manwl yn rhoi darlun clir o gynnydd pob plentyn dros amser ac yn galluogi ymarferwyr i adnabod eu camau nesaf yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r arferion hyn yn cael eu gweithredu'n ddigon cyson gan bob ymarferydd, ac o ganlyniad, nid ydynt yn datblygu medrau'r plant yn ddigon bwriadus a symud eu dysgu ymlaen yn ddigon effeithiol.

Mae gan ymarferwyr berthynas gadarn â rhieni ac maent yn cryfhau'r cysylltiad hwn drwy anfon tedi'r lleoliad adref gyda phlant ar benwythnosau. Maent yn annog teuluoedd i gofnodi eu profiadau ar y cyd, sy'n darparu cyfleoedd ystyrlon i blant rannu a thrafod eu profiadau personol. Mae hyn yn cefnogi datblygiad iaith lafar y plant ac yn hybu eu hyder i gyfathrebu o fewn cyd-destun cyfarwydd yn effeithiol. Mae'r arfer hon yn meithrin ymdeimlad cryf o berthyn ac yn galluogi teuluoedd i gyfrannu'n weithredol at ddysgu a datblygiad eu plant.

## Yr amgylchedd: Da

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd diogel a glân. Mae ganddynt drefniadau cadarn i reoli mynediad i'r safle, ynghyd â gweithdrefnau clir sy'n sicrhau bod ymwelwyr yn mewngofnodi'n brydlon. Mae arweinwyr yn sicrhau bod prosesau priodol ar waith i fonitro a rheoli unrhyw beryglon yn effeithiol. Mae asesiadau risg cynhwysfawr yn amlinellu peryglon posibl a'r camau i leihau neu ddileu risgiau i blant. Mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferion tân yn digwydd yn rheolaidd a bod offer diogelwch, megis offer diffodd tân, yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Maent yn arddangos gwybodaeth berthnasol am yr ymarferwyr, polisïau a gweithdrefnau diogelu mewn mannau allweddol o amgylch y lleoliad. Cedwir yr holl gofnodion sy'n ymwneud â'r gwasanaeth yn ddiogel.

Mae arweinwyr yn cynnig amgylchedd hunangynhwysol o ansawdd da sy'n groesawgar a chartrefol. Maent yn darparu cyfleusterau addas sy'n galluogi plant i ddefnyddio'r toiledau a golchi eu dwylo'n annibynnol, yn ogystal â man newid cewynnau sy'n sicrhau preifatrwydd. Mae arweinwyr yn trefnu'r amgylchedd yn ofalus er mwyn darparu amrywiaeth dda o gyfleoedd chwarae a dysgu addas i blant, gyda digon o le iddynt symud o gwmpas yn rhwydd. Yn ogystal, darperir ardaloedd lle gall plant fwynhau gwrando ar stori, darllen neu ymlacio. Mae arweinwyr yn sicrhau cyfleoedd buddiol yn ddyddiol i blant ddefnyddio'r ardal awyr agored, gan eu hannog i fwynhau gweithgareddau megis adeiladu, creu sain neu arddio. Maent yn llwyddo i feithrin ymdeimlad o berthyn ymhlith y plant drwy arddangos lluniau ohonynt yn ymwneud â gwahanol weithgareddau, ynghyd â ffotograffau ohonynt gyda'u teuluoedd.

Mae arweinwyr yn darparu adnoddau o safon dda sy'n briodol i gam datblygiad ac oedran y plant. Caiff yr adnoddau eu gosod ar lefelau isel, gan sicrhau bod gan blant fynediad rhwydd atynt. Mae hyn yn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol a dilyn eu diddordebau. Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd da i blant ddysgu am y byd o'u cwmpas. Gwneir defnydd effeithiol o adnoddau wedi'u hailddefnyddio a deunyddiau naturiol i annog y plant i arbrofi a darganfod. Er enghraifft, maent yn darparu cardfwrdd wedi'i ailddefnyddio er mwyn i blant greu palas pryfaid. Yn yr un modd, mae eitemau o'r cartref ar gael i blant eu defnyddio yn eu chwarae, gan feithrin eu chwilfrydedd a'u dychymyg yn effeithiol. Maent yn darparu ystod o adnoddau gwerthfawr sy'n hybu ymwybyddiaeth plant o anghenion gwahanol bobl ac o ddiwylliannau amrywiol, megis llyfrau, teganau ac offerynnau cerdd o wahanol wledydd.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae arweinwyr yn darparu arweinyddiaeth briodol sy'n sefydlu ethos cadarnhaol ac yn sicrhau bod lles, diogelwch a datblygiad y plant yn ganolog i waith y lleoliad. Maent yn cyfleu gweledigaeth glir ar gyfer datblygiad y lleoliad ac yn cydweithio'n briodol i wireddu'r weledigaeth hon. Mae arweinwyr yn deall eu cyfrifoldebau rheoliadol ac yn cefnogi ei gilydd yn dda. O ganlyniad, mae trefniadau gweinyddol a diogelu yn gadarn ac yn sicrhau amgylchedd ddiogel a threfnus i blant a staff.

Mae arweinwyr yn datblygu prosesau hunanwerthuso priodol ac yn dechrau meithrin diwylliant o welliant parhaus. Maent yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau eraill i adnabod meysydd i'w datblygu. Mae'r pwyllgor yn dechrau adeiladu ar eu medrau i gyflawni ei rôl strategol wrth fonitro a gwerthuso'r ddarpariaeth. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu dull mwy systematig o gynllunio ar gyfer gwelliant. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau hunanwerthuso'n ystyried ystod digon eang o safbwyntiau er mwyn adnabod eu blaenoriaethau yn ddigon cadarn a chynllunio gwelliant.

Mae arweinwyr yn rheoli staff ac adnoddau'n effeithiol, gan sicrhau bod cyfleoedd dysgu proffesiynol perthnasol ar gael i'r staff sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ac uniongyrchol ar ansawdd y ddarpariaeth. Er enghraifft, yn dilyn hyfforddiant diweddar, mae ymarferwyr wedi datblygu ardaloedd cyfoethog sy'n ennyn chwilfrydedd y plant a'u hannog i archwilio ac ymchwilio'n fwy annibynnol. Ar y cyfan, mae prosesau goruchwylio ac arfarnu cadarn ar waith sy'n sicrhau cefnogaeth reolaidd i ymarferwyr. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o grantiau i wella adnoddau, sy'n cael effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgu'r plant.

Mae arweinwyr yn meithrin partneriaethau buddiol sy'n cefnogi cynnydd a lles y plant yn effeithiol. Maent yn defnyddio llwyfannau digidol yn fedrus i rannu gwybodaeth gyda rhieni a gwarchodwyr. Mae arweinwyr yn sicrhau bod cyfleoedd addas ar gael i rieni dderbyn gwybodaeth glir a phriodol am brofiadau a chynnydd eu plant, ac mae hyn yn cefnogi eu hymwybyddiaeth o weithgareddau'r lleoliad. Mae gan arweinwyr drefniadau pontio addas sy'n sicrhau bod plant yn hyderus ac yn barod ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae arweinwyr yn dechrau datblygu cyfleoedd gwerthfawr i ymgysylltu â'r gymuned. Er enghraifft, mae ymweliadau rheolaidd i'r siop leol a'r parc yn cyfoethogi profiadau'r plant, gan ddatblygu eu dealltwriaeth o'u hardal leol a'u medrau cymdeithasol trwy brofiadau go iawn.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella’n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae’r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu’n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/08/2026